

Fy enw i yw Des.

Rwy'n swyddog hyfforddi ar gyfer y cyfrifiad, felly rwy'n gyfrifol am ddatblygu'r deunyddiau hyfforddi i alluogi ein staff maes i fod yn gymwys wrth gynnal y cyfrifiad.

Rwyf fi wedi bod yn gyfrifol am ddatblygu deunyddiau hyfforddi, ac roedd hynny'n cynnwys bod yn rheolwr ardal hefyd, ar gyfer y cyfrifiad, a oedd yn rhoi llawer o foddhad.

Fel rheolwr ardal, byddwn i'n cael galwadau dyddiol gyda fy nhîm, er mwyn datrys unrhyw broblemau, rhoi unrhyw gymorth sydd ei angen ac arsylwi hefyd. Felly roeddwn i'n awyddus iawn yn fy rôl i beidio â gwneud popeth o'r pencadlys. Adborth datblygiadol hefyd, i'r staff, i'w galluogi nhw i lwyddo a chael canlyniadau gwell.

Y sgil pwysicaf, fwy na thebyg, i reolwr ardal yw'r gallu i addasu oherwydd dydych chi byth wir yn gwybod beth fydd gan y diwrnod i'w gynnig. Mae'n gallu bod mor syml â gwybod bod rhywun yn cael problemau gyda'i ddyfais i gasglu gwybodaeth, sef rhywbeth y byddai'n rhaid i mi ei ddatrys dros y ffôn weithiau gyda swyddog sydd efallai ychydig yn llai medrus â TG, neu ddigwyddiad lle mae car rhywun yn sownd ymhell o bobman a does dim signal ganddo ar ei ffôn, na signal Wi-Fi, a dydy e ddim yn hollol siŵr beth i'w wneud, a cheisio ei helpu.

I fi, fe gefais i lawer o foddhad o'r rôl, yn gweithio ar y cyfrifiad. Rwy'n berson sy'n edrych ar y darlun mawr, felly pan rwy'n edrych ar y cyfrifiad, rwy'n sylweddoli bod popeth rwy'n cyfrannu ato, mewn gwirionedd yn mynd i helpu, i bob pwrpas, ac rwyf fi wir yn teimlo ei fod yn ffordd o roi rhywbeth yn ôl, ac felly roeddwn i'n teimlo'n ddefnyddiol iawn yn y rôl.

Mae'r hyfforddiant i staff maes yn cynnwys dysgu digidol fel arfer i ddechrau, er mwyn rhoi trosolwg o'r cyfrifiad iddyn nhw. Diogelwch hefyd, sy'n bwnc pwysig iawn, er mwyn gwneud yn siŵr bod deunyddiau'r cyfrifiad yn cael eu trin yn ddiogel. Iechyd a diogelwch, delio â chŵn, a pheryglon eraill hefyd.

Yn sicr, ar raddau uwch, rhywfaint o hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth, sy'n trafod y sgiliau rheoli meddal sydd eu hangen i wneud yn siŵr y gallwch chi gymell eich tîm.

Byddwn i'n argymhell i bawb, os gallan nhw, gymryd rhan yn y cyfrifiad oherwydd mae'n ddigwyddiad hanesyddol iawn a phan fyddwch chi'n cyfrannu ato, byddwch chi'n helpu Prydain i wneud penderfyniadau gwell.